**Ysgol Pontrobert**
**Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr i Rieni**
**2019-20**

Gair gan gadeiryddes ein Bwrdd Llywodraethol, Denise Jones

"This year has been a strange and challenging time for all. We, as Governors, are grateful to everyone who has contributed throughout the lockdown period, pupils, parents and staff, to ensure that the children continued to receive as much education and support as possible. It has not been easy but we truly appreciate the effort that was made by parents to facilitate the communication between pupils and the school wherever possible - thank you.
Despite the lockdown there was a real success. Once again being categorised as a Green school is something that everyone should be immensely proud of as it is an outward recognition of the effort that goes into making Ysgol Pontrobert a great learning environment for our children.
I would also like to take this opportunity to wish the departed Year 6 all the best in their high school careers. It was disappointing not to be able to do this in the usual manner however I'm sure that they will carry with them everything that Ysgol Pontrobert has given them regardless and be great assets to their new schools.
We look forward to, what will hopefully be, a return to as close to normal as possible over the coming months and we thank you for your continued support".

## Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â'r flwyddyn ysgol o Fedi 2019 i Orffennaf 2020.
Bu'r flwyddyn hon yn un o'r rhai mwyaf heriol mewn hanes i ysgolion, disgyblion a rhieni fel eu gilydd ond rydym wedi goroesi ac yn falch o fod yn ôl gyda'n gilydd mewn rhyw fath o normalrwydd. Mae'n beth braf a llesol i'r disgyblion a'r staff fod yn ôl gyda'n gilydd, yn ail adeiladu perthnasau a sgiliau addysgol. Cyn y clo mawr roeddym ,fel ysgol, wedi llwyddo i gymryd rhan mewn nifer o weithgareddau all gyrsiol oedd yn cyfoethogi addysg y disgyblion.
Unwaith eto, rydym yn falch iawn fod yr ysgol wedi cael ei gosod yn y band gwyrdd (uchaf) gan Llywodraeth Cymru.
Fel llywodraethwyr o Ysgol Pontrobert rydym yn ymwybodol iawn o gyraeddiadau uchel ein dysgwyr a'r ethos Gymraeg gref sydd ynddi. Cymraeg yw iaith yr ysgol- caiff ei siarad y tu mewn a thu allan i furiau'r ysgol ac mae'r plant yn cymryd cyfrifoldeb mawr am lwyddiant hyn. Mae cerddoriaeth hefyd o bwysigrwydd uchel gyda phob disgybl o flwyddyn 2-6 yn chwarae offeryn ac yn symud i fyny i fand yr Ysgol. Mae ein dyled fawr i Ffrindiau'r Ysgol yn parhau. Mae'n siwr bod eu gallu i godi symiau ardderchog o arian ar gyfer yr ysgol yn unigryw iawn.

Anogir pob disgybl i barhau ei addysg Uwchradd drwy gyfrwng y Gymraeg ac unawith eto llwyddodd 100% o ddisgyblion blwyddyn 6 i wneud hyn. Yn wir, un o lwyddiannau'r flwyddyn oedd gweld disgybl a ddaeth i Ysgol Pontrobert i ddechrau ei haddysg Gymraeg ym mlwyddyn 6 yn symud ymlaen i barhau ei haddysg uwchradd drwy gyfrwng y Gymraeg. Aeth ein disgyblion blwyddyn 6 ymlaen i ysgolion uwchradd Caereinion a Llanfyllin. Rhoddir pob cefnogaeth i rieni sydd angen cymorth gyda'u Cymraeg.

Oherwydd y Clo mawr nid oedd asesiadau ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a CA2.

Yn yr ysgol addysgir dau gyfnod allweddol.

Cyfnod Sylfaen (4-7 oed)

Yn y cyfnod yma mae prif brofiadau addysgu'r plentyn yn cael eu datblygu. Rhoddir y pwyslais ar ddatblygu sgiliau cyfathrebu, llythrennedd a rhifedd. Trwy gynnig cwricwlwm eang a chyfoethog integredig ceisiwn ddatblygu diddordeb y disgyblion gan fod yn ymwybodol o lefel eu datblygiad. Blynyddoedd allweddol yw'r rhain lle mae disgyblion yn dysgu sut i arsylwi, gwrando a chyfathrebu nid yn unig fel unigolion ond hefyd fel aelodau caredig o gymdeithas.

Cyfnod Allweddol 2 (7-11 oed)

Canolbwyntir ar sgiliau allweddol cyfathrebu, llythrennedd a rhifedd yng nghyfnod allweddol dau. Fel bydd eu gwybodaeth yn cynyddu bydd mwy o amser yn cael ei neilltuo ar gyfer y pynciau sylfaenol. Bydd y cwricwlwm yn cael ei addysgu trwy ddulliau ymholi. Mae'r ysgol yn cynllunio yn ôl y dull argymhellwyd gan awdurdod addysg Powys.

## Y Corff Llywodraethol

Gwirfoddolwyr yw holl aelodau Corff Llywodraethol Ysgol Pontrobert, ac maent yn rhoi eu hamser am ddim i gefnogi'r ysgol. Maent yn sicrhau fod yr ysgol yn parhau i ddarparu addysg o'r radd flaenaf i'ch plant mewn amgylchedd diogel a hapus.

Mae cyfansoddiad presennol y Corff Llywodraethol fel a ganlyn:

| **Rhiant Lywodraethwyr** | | **Tymor** |
|---|---|---|
| Mrs Denise Jones (Cadeirydd) | Ty Mawr<br>Pontrobert<br>Meifod<br>01691648347 | 2016-20 |
| Mr Mike Lincoln (Is Gadeirydd) | | 2016-20 |
| Mr. Jim Macdonald | | 2017-21 |
| Mr Carwyn Davies | | 2019-23 |
| Mr Geraint Lloyd | | 2019-23 |
| **Llywodraethwyr yr Awdurdod Addysg Lleol** | | |
| Mr Gareth Jones | | 2016-20 |
| **Llywodraethwyr y Cyngor Cymuned** | | |
| Mr Emyr Jones | | 2017-21 |
| **Llywodraethwyr Cymunedol** | | |
| Mr Alan Broughall | | 2013-20 |
| Mrs Gwerfyl Davies | | 2019-23 |
| **Llywodraethwyr Staff** | | |
| Mrs Rhian Robinson | | 2016-20 |
| **Pennaeth** | | |
| Mrs. Catherine Parry | | Amherthnasol |

**Clerc y Corff Llywodraethol**

Mrs Ellyw Pickstock, Glascoed, Meifod, Powys 01938 501401
Gellir cysylltu â'r Clerc a'r Cadeirydd trwy'r ysgol.
Cynhelir yr etholiad Llywodraethwr-riant nesaf yn 2021.

**Cyfarfod Blynyddol y Llywodraethwyr i Rieni (27/1/20) a gynhaliwyd yn yr ysgol.**

Cynhaliwyd cyfarfod yn yr ysgol i drafod Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr ar gyfer rhieni lle cyflwynodd disgyblion blwyddyn 6 gyflwyniad pwerbwynt ar eu hoff ddigwyddiadau yn ystod y flwyddyn.
Llywdraethwyr yn bresennol-Denise Jones, Jim Macdonald, Alan Broughall, Sian Vaughan Jones, ,Mike Lincoln,Gareth Jones,Emyr Jones, Carwyn Davies, Geraint Lloyd
Staff yr ysgol-Rhian Robinson, Catherine Parry
Nifer o rieni'n bresennol-10. Dim cynrychiolwyr o'r AALl
Materion a drafodwyd –adroddiad y pennaeth, cyllideb yr ysgol, Cynllun Gwella Ysgol.
Nid oedd materion yn codi.

## Cyllid

Mae gan lywodraethwyr ysgol rôl gynyddol bwysig i'w chwarae wrth sicrhau fod cyllid ysgolion yn cael ei wario'n effeithiol er lles y disgyblion.
Rydym yn ddiolchgar iawn am gefnogaeth Ffrindiau'r Ysgol, yn enwedig y gefnogaeth ardderchog a roddwyd i'r ocsiwn addewidion a'r ras hwyaid. Mae'r arian a godwyd wedi'i ddefnyddio i brynu adnoddau ac i gynnig cyfleoedd i'r holl ddisgyblion yn yr ysgol. Yn ystod y flwyddyn academaidd ddiwethaf, mae Ffrindiau'r Ysgol wedi helpu gyda nifer o gostau e.e.

- Costau cludiant ac adnoddau addysgol £1,1400.00
- Gwersi pres £2,160.00
- Aelodaeth a thocynnau'r Urdd £232.0
- Torri glaswellt £901.00
- Rhwydi i ddal hwyaid plastig £85.50
- Anrhegion Nadolig i'r disgyblion £165
- Sports safe (Parc Eifion) £640.80
- Siwmperi gadael blwyddyn 6 £114

## Gwariant

Mae crynodeb o wariant blynyddol yr Ysgol ar gael i chi yn yr Ysgol.

## Grantiau/Rhoddion

Ni dalwyd unrhyw gostau teithio na chynhaliaeth i aelodau o'r corff llywodraethol yn ystod 2019-2020.
Yn ystod 2019/20 derbyniodd yr ysgol Grant Amddifadedd o £1,150 a brynodd llyfrau darllen Cymraeg a Saesneg.

Derbyniodd yr ysgol swm o £1,257 ar gyfer datblygiad proffesiynol a £3,196 on EIG ( Grant Gwella Addysg) a ddefnyddiwyd i ddatblygu gwyddoniaeth a thechnoleg yn yr ysgol.

## Hyfforddi a Datblygu Staff

Roedd nifer o ddiwrnodau HMS (Hyfforddiant Mewn Swydd) yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, a neilltuwyd ar gyfer datblygu swyddogaethau athrawon fel cydlynwyr ac i ddatblygu'r broses hunan-arfarnu ym mhob pwnc ar draws y cwricwlwm. Rhoddwyd mwy o ffocws ar safoni gwaith ar ddiwedd CA2 a pharatoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru.
Hefyd, fe wnaeth y llywodraethwyr a'r clerc fynychu nifer o gyrsiau ar faterion yn ymwneud ag amddiffyn plant, data, rheoli'r gyllideb, cynhwysiant a chefnogi disgyblion.

## Cynllun Datblygu'r Ysgol

Roedd y prif feysydd i'w datblygu yn y Cynllun Datblygu fel a ganlyn, a gwnaed cynnydd sylweddol ym mhob un ohonynt fel y nodir:

| Targed | Cynnydd |
|---|---|
| **Cynllunio ar gyfer y Cwricwlwm Newydd i Gymru** | Roedd yr agwedd yma'n datblygu'n dda iawn yng ngwaith y disgyblion ac yn ystod clo mawr aseiladwyd ymhellach arno trwy wneud tasgau thematig o fewn 6 maes y cwricwlwm. |
| **Sicrhau fod medrau rhifedd a mathemateg y disgyblion yn parhau fod yn uchel ar draws y cwricwlwm.** | Roedd bron pob un o'r targedau wedi eu cyrraedd cyn y clo mawr ond nid oedd asesiadau ar ddiwedd CS a CA2 i gael y data yma. |
| **Parhau i gadw safonau uchel yn y Gymraeg ac anelu at gael uy wobr aur yn y Siarter Iaith** | Roedd y Criw Cymraeg yn gweithio tuag at ennill y wobr aur ond unwaith eto, daeth y clo mawr ac felly ni chawsom gyfle i gael ein asesu'n allanol |
| **Sicrhau fod lles emosiynol a chorfforol y disgyblion yn amlwg ym mywyd bob dydd yr ysgol.** | Cafwyd llawer o weithgareddau yn y maes yma a paratôdd y staff dasgau yn y dysgu cyfunol a oedd yn cryfhau y rhain. |

## Anghenion Dysgu Ychwanegol

Rhoddir cymorth ardderchog i ddisgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn ogystal â'r disgyblion Mwy Abl a Thalentog.
Mae anghenion disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu hadnabod yn gynnar, ac mae'r ymyrraeth hon yn helpu disgyblion i gymryd rhan lawn mewn gwersi. Mae disgyblion wedi gwneud cynnydd ac wedi datblygu hyder yn eu perfformiad academaidd o ganlyniad i'r cymorth ychwanegol hwn. Rydym wedi

parhau i ddefnyddio Hwb Ymlaen, Catch Up a Dyfal Donc i gefnogi plant Sgiliau Sylfaenol.Mae gennym gymhareb ardderchog o staff:disgyblion sy'n ein galluogi i roi cymorth i blant gydag anghenion eang.

## Darpariaeth Chwaraeon

Darperir Chwaraeon fel rhan o'r Cwricwlwm ac fel clybiau all gyrsiol. Defnyddiwn neuadd y Gymuned a Pharc Eifion yn rheolaidd ar gyfer ein gweithgareddau chwaraeon.(Mwy o wybodaeth o dan "Llwyddiannau" a "Clybiau". Mae'r ysgol yn darparu 10 gwers nofio yn nhymhorau'r Hydref a'r Haf yn y Fflash, Trallwm. Mae disgyblion CA2 yn cael awr yr wythnos o Addysg Gorfforol a'r Cyfnod Sylfaen yn cael o leiaf dwy sesiwn o hanner awr.

## Mynediad

Fel ysgol, rydym yn croesawu pob disgybl. Mae'r holl ddisgyblion yn cael eu trin yn gyfartal beth bynnag eu gallu, anabledd, hil neu ryw. Mewn ymgynghoriad â llywodraethwyr, rhieni, staff a chyn ddisgyblion, mae cynllun hygyrchedd wedi'i gyhoeddi, sydd ar gael i unrhyw un sy'n dymuno ei darllen. Mae drws newydd wedi'i osod, ynghyd â mynediad i gadeiriau olwyn.

## Diogelwch

Mae diogelwch yn fater holl bwysig i'r corff llywodraethol, ac yn cael ei adolygu'n barhaol i adnabod lle y gellir gwneud gwelliannau. Bydd pob ymwelydd yn arwyddo i mewn yn y llyfr ymwelwyr ac yn gwisgo bathodyn ymwelydd. Mae'r ysgol ar glo drwy'r amser a'r brif fynedfa yn cael ei rheoli gan bad allwedd. Mae'r larwm tân yn cael ei phrofi i gydfynd â gofynion statudol- bydd dril yn cael ei gweithredu bob hanner tymor fel bydd holl staff a disgyblion yr ysgol yn gwybod yn union beth i'w wneud mewn achlysur o argyfwng a phrofir y sustem bob wythos.

## Safleoedd ac Adeiladau

Ymgymerir ag adolygiad iechyd a diogelwch blynyddol sy'n amlygu meysydd pryder/yr angen i wella. Nid oedd angen gwneud unrhyw atgyweiriadau mawr y llynedd. Mae'r corff llywodraethol yn ddiolchgar am gymorth Ffrindiau'r ysgol, sy'n cynnal digwyddiad glanhau blynyddol. Mae hyn yn arbed llawer i'r ysgol mewn costau cynnal a chadw.

## Estyn

Cafodd Ysgol Pontrobert ei harolygu ddiwethaf ym mis Rhagfyr 2014. Mae'r llywodraethwyr yn falch o ganfyddiadau'r arolwg, sy'n adlewyrchu'r gwaith rhagorol sy'n cael ei wneud yn Ysgol Pontrobert. Rydym yn falch iawn o'r plant, eu hymdrechion a'u llwyddiannau ym mhob agwedd o fywyd a gwaith yr ysgol. Rydym yn falch fod ethos gofalgar, gweithgar a chyfeillgar yr ysgol wedi'i gydnabod, ynghyd ag ymddygiad rhagorol yr ysgol. Rydym yn ymfalchïo yng ngallu'r disgyblion i gydweithio'n hyderus mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd, a'u hagweddau positif iawn tuag at ddysgu.

Mae'r ysgol yn falch iawn o'r clod a roddir i ansawdd yr addysgu, y ddarpariaeth gwricwlaidd a'r profiadau eang a gyflwynir i'r disgyblion.

Cafodd sgiliau'r athrawon a'r cynorthwywyr addysgu ac ymrwymiad y llywodraethwyr eu cydnabod gan y tîm arolygu. Cydnabuwyd y cynnydd da iawn a welwyd yn sgiliau llythrennedd, TGCh a dwyieithrwydd disgyblion trwy'r cwricwlwm. www.estyn.gov.uk

## Arfer dda

Mae Cyngor Sir Powys yn cydnabod Ysgol Pontrobert fel ysgol sydd ag arfer dda mewn sawl maes. Mae ein gwaith ar y Siarter Iaith yn enghraifft o hyn gyda Mrs Parry yn cyngori ysgolion eraill Powys ar sut i ddatblygu'r iaith.

Hefyd mae llyfrau ein disgyblion wedi cael eu rhannu gydag ysgolion eraill fel enghreifftiau o arfer dda.

Un o uchafbwyntiau tymor yr Hydref oedd gweld disgyblion blwyddyn 5 a 6 yn cymryd rhan mewn "Digimeet" yn Ysgol Dafydd Llwyd lle roeddynt yn rhannu eu gwaith digidol gyda staff dysgu Powys.

## Clybiau Ysgol

Mae gan yr Ysgol nifer o weithgareddau ar ôl ysgol ac yn ystod amser cinio ar gyfer disgyblion.
Roedd y clybiau a oedd yn cael eu cynnig yn y flwyddyn academaidd 2019-20 yn cynnwys;

- Clwb Hoci a Phêl Rwyd
- Urdd
- Rownderi
- Eco

Cynigir gwersi pres a chwythbrennau i'r disgyblion, ac mae'r gwersi pres yn cael eu talu'n gyfan gwbl gan Ffrindiau'r Ysgol.

Yn anffodus , oherwydd cyfyngiadau Covid 19 doedd disgyblio CA2 ddim yn gallu mynd ar gyrsiau i Glan Llyn, Llangrannog na Chaerdydd eleni.

## Llwyddiannau

Oherwydd y clo mawr eleni, fe gollodd y disgyblion gyfleoedd i wneudd llawer o weithgareddau allgyrsiol ond ynystod ein tymor a hanner yn yr ysgol, fe lwyddwyd i wenud rhai gweithareddau cyfoethog fel-
-Cymrodd disgyblion CA2 ran yn nhwrnament rygbi Cobra yn Meifod ym mis Medi
-Bu ein timau pêl-droed a phêl rwyd yn cymryd rhan yng nghyngrair lleol yr Urdd
-Cymroddd pob disgybl CA2 ran yn yr athletau dan do
-Cymrodd ein disgyblion ran mewn gemau pêl -droed a phêl rwyd yn Ysgol Dyffryn Banw
- Cynhaliwyd eisteddfod ysgol lwyddiannus ddiwedd mis Chwefror

## Presenoldeb

Rydym yn falch iawn o bresenoldeb arbennig ein disgyblion ac rydym wedi profi fod cysylltiad annatod rhwng presenoldeb uchel a chyrhaeddiad addysgol uchel. Mae'r ysgol wedi bod yn y chwarteil uchaf o ran presenoldeb am flynyddoedd di -dor.
Rydym yn parhau i roi llawer o bwyslais ar bwysigrwydd presenoldeb rheolaidd a phrydlon yn yr ysgol, ac rydym yn ddiolchgar i'r holl rieni a gofalwyr am eu cefnogaeth mewn perthynas â hyn. Er mwyn lleihau lefelau o absenoldebau heb awdurdod anfonwyd llythyr i bob teulu yn pwysleisio pwysigrwydd presenoldeb llawn ac atgyfnerthir hyn ym Mhrosbectws yr ysgol hefyd.

Ar gyfer y flwyddyn ddiwethaf, roedd ein ffigyrau presenoldeb fel a ganlyn:
Oherwydd cyfyngiadau Covid nid oedd ffigyrau presenoldeb yn cael eu cyhoeddi.

## Polisïau'r Ysgol

Mae holl bolisïau'r ysgol yn cael eu hadolygu gan y corff llywodraethol fel rhan o raglen tair blynedd.
Cafodd y polisïau clynol eu hadolygu / mabwysiadu yn ystod y flwyddyn:-

| | |
|---|---|
| Anghenion addysgu ychwanegol | Diogelu |
| Amddiffyn Plant | "Whistleblowing" |
| Camdrin cyffuriau ac alcohol | Daliwr allwedd yr ysgol |
| Rarely cover | Y cyfnod sylfaen |
| Addoli ar y cyd | Cynllun cydraddoldeb |
| "Redeployment" | Asesu |
| Salwch | Cwricwlwm |

| | |
|---|---|
| Iechyd a Diogelwch | Polisi Ariannol |
| Polisi Meddygol | Tywydd garw |
| “Redundancy-teaching and non-teaching” | “Redeployment”-(holl staff yr Ysgol) |
| Rheoli newid | |

**Canlyniadau Asesiadau’r Cwricwlwm Cenedlaethol- Haf 2020**

Oherwydd cyfyngiadau Covid nid oedd asesiadau ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen na CA2 eleni.

## Llwyddiannau

Yn ystod y flwyddyn academaidd, roedd y disgyblion yn llwyddiannus mewn amrywiaeth eang o weithgareddau.

Gweithgareddau Diwylliedig

- Cafwyd Eisteddfod Ysgol lwyddiannus iawn ym mis Mawrth lle gwelwyd pob disgybl yn cymryd rhan mewn perfformiad ar y llwyfan
- Bu disgyblion CA2 yn cymryd rhan yn nhwrnament rygbi Cobra ym Meifod ym mis Medi
- Bu ein tîm pêl-rwyd a phêl droed yn cymryd rhan mewn gemau yng nghyngrair yr Urdd
- Our netball and football teams competed in the Urdd area league ac yn ysgol Dyffryn Banw.

**Prosbectws**

Mae rhai manylion wedi'u newid ers y cyhoeddwyd y prosbectws diwethaf. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Newidiadau staffio
- Newidiadau llywodraethwyr
- Canlyniadau diwedd y cyfnod allweddol
- Data presenoldeb

Mae'r prosbectws yn cael ei adolygu’n rheolaidd.

## Y Gymuned

Fel Bwrdd Llywodraethol dyma rai o’r camau a wnaethom i gryfhau cysylltiadau rhyngom â’r Gymuned-

- Mae cyngor yr ysgol yn cael cyfarfod blynyddol gyda'r Cyngor Cymuned
- Roedd aelodau’r gymuned wedi ymuno â ni yn ein Gwasanaeth Diolchgarwch ac wedi codi arian tuag at Cardiac Risk in the Young
- Bu band yr ysgol yn arwain y canu carolau o gwmpas coeden Nadolig y pentref cyn mynd i’n ffair Nadolig flynyddol. Eleni roedd disgyblion bl 3-6 yn rhedeg stondin eu hunain fel rhan o’u prosiect Menter a Busnes. Roedd yr arbenigwraig fusnes leol, Mrs Sioned Best, wedi beirniadu’r gystadleuaeth am y stoni orau eleni. Cefnogwyd y noson yn dda gan y gymuned.
- Daeth y gymuned i gefnogi ein Eisteddfod Ysgol flynyddol yn ogystal â’r gwasanaeth Nadolig.
- Mae gennym gysylltiadau agos gyda’r Cylch Meithrin a Ti a Fi.
- Unwaith eto cefnogwyd ein ocsiwn addewidion flynyddol yn ardderchog gan y gymuned.

- Rydym yn parhau i gadw cysylltioadau agos gyda'r Heddlu.
- Gwei
- thiodd disgyblion CA2 ar brosiect am Owain Glyndwr gydag Ysgol Dyffryn  Banw
- Buom yn gweithio gydag ysgolion Dyffryn Banw a Llanerfyl  mewn gweithgareddau ar gyfer y Siarter Iaith
- Ceir gwasanaethau crefyddol aml gan ficer Meifod, Jane James a'r Tîm Impact

Roedd yr ysgol yn weithgar wrth godi arian ar gyfer. elusen e.e

| | |
|---|---|
| Cardiac Risk in the Young | £206 |
| Plant mewn Angen | £139 |
| Menter a Busnes | £545.00 |

## Y Cyngor Eco

Mae Cyngor Eco yr ysgol yn cwrdd yn rheolaidd, ac mae'n gyfrifol am annog a chofnodi eitemau a gaiff eu hailgylchu o fewn yr ysgol. Mae dillad, 'toner' a ffrwythau yn cael eu hailgylchu. Mae dŵr gwastraff yn cael ei storio yn yr ardd. Tyfir a chyn y  y aeafir  ffrwythau a llysiau yn yr ardd

## Y Siarter Iaith.

Mae'r Criw Cymraeg wedi gweithio'n ddiflino tuag at ennill y wobr aur ond oherwydd cyfyngiadau Covid 19 nod oeddym yn gallu cael ein asesu'n ffurfiol.

## Cyngor yr Ysgol

Etholwyd pwyllgor gweithgar ym mis Medi 2019. Mae'r Cynghorwyr yn cwrdd yn rheolaidd ac yn trefnu digwyddiadau o fewn yr ysgol, ac yn cyfathrebu gyda'r gymuned ehangach.

## Bwyta'n Iach

Rhoddir pwyslais mawr ar fwyta'n iach yn yr ysgol. Mae dewis eang o ffrwythau wedi eu paratoi ar gael i'r disgyblion amser egwyl y bore. Hefyd hybir pecynnau bwyd a diod iach amser cinio ac mae dŵr yfed ar gael i bob disgybl bob adeg o'r dydd.

## Cyfleusterau Toiled

Mae darpariaeth ar wahân yn ei le ar gyfer toiledau bechgyn a merched yn yr ysgol, ac maent yn cael eu glanhau  sawl gwaith bob dydd gan lanhawrwraig yr ysgol.

## Atodiadau

Mae'r canlynol ar gael ichi yn yr Ysgol-

1. Adroddiad gwariant
2. Dyddiadau'r tymor  ar gyfer y flwyddyn academaidd bresennol 2020-21

### Amseroedd Sesiynau Ysgol

| | |
|---|---|
| **Cofrestru** | 08:55 |
| **Bore** | 09:00 – 10:40 |
| | 10:55 – 12:00 |

| | |
|---|---|
| **Prynhawn** | 13:00 – 14:15 |
| | 14:30 – 15:30 |